

# Uchafbwyntiau Cymru 2016/17



# Gweithio dros Gymru

Ar sail ein gwerthoedd craidd o fod yn fasnachol, yn ddidwyll a stiwardiaeth, rydym yn ymroddedig i gynnig gwerth hirdymor yng Nghymru.

Mae ein gweithgareddau'n cwmpasu'r amgylchedd morol a gwledig yng Nghymru, ac mae'r adroddiad hwn yn amlygu rhai o'n llwyddiannau a chynnydd yn 2016/17.

## Sut yr ydym yn gweithio

**M**ae gweithio mewn partneriaeth yn ganolog i'n dull o reoli asedau yng Nghymru. Fel canlyniad, cydweithredwn gydag ystod amrywiol o sefydliadau sy'n rhannu nod gyffredin i sicrhau canlyniad cadarnhaol i'r wlad.

Rydym yn deall nodau Llywodraeth Cymru ac yn parhau i weithio'n agos gyda nifer o adrannau ar flaenoriaethau a rannwn. Mae tîm Ystâd y Goron yn cyfarfod Gweinidogion ac eraill yn gyson, a rydym yn parhau i adeiladu ar y berthynas ragweithiol a sefydlwyd rhyngom a'r Llywodraeth.

Cymerwn ran mewn nifer o weithgorau a grwpiau ymgynghori, yn cynnwys gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Er enghraifft, rydym yn aelodau o Grŵp Ymgynghori Strategol Morol Cymru a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.

I'w nodi'n neilltuol eleni, yn rhinwedd ein gwaith yn rheoli'r gwely'r môr, rydym wedi rhoi tystiolaeth, data ac arbenigedd drwy broses ymgysylltu Llywodraeth Cymru i gefnogi llunio'r Cynllun Morol a gaiff ei gyhoeddi er ymgynghoriad yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Ble'r ydym yn gweithio

Mae ein cyfrifoldebau yng Nghymru yn cynnwys gwely'r môr hyd at 12 milltir forol. Mae hyn yn golygu fod gennym fuddiannau mewn ynni adnewyddadwy, pibellau olew a nwy, codi agregau morol, telegyfathrebu a cheblau ynni.

Yn ychwanegol, mae gennym hawliau penodol hyd at y silff gyfandirol (ac eithrio hydrocarbonau) ac rydym yn rheoli tua 65 y cant o flaendraeth Cymru.

Ar y tir, rydym yn berchen ar dir gwledig a gaiff ei osod ar gyfer dibenion amaethyddol, a thua 26,900 hectar (66,470 erw) o dir comin yng Nghymru. Er mai tir pori garw yw hwn yn bennaf, mae hefyd yn adnodd naturiol pwysig sy'n cael ei fwynhau gan bawb sydd â diddordeb yng nghefn gwlad Cymru.

Mae'r buddiannau economaidd ychwanegol yn cynnwys porthladdoedd, marinas a ffermydd gwynt ar y tir.

Rydym hefyd yn gyfrifol am tua 100,000 hectar (247,000 erw) o berchenogaeth mwynau yn unig, gydag wyth safle ar hyn o bryd ar les i gloddio mwynau.

Yn ychwanegol, rydym yn berchen adneuron aur ac arian, a elwir yn Fwyngloddiau Brenhinol, ble bynnag y byddant yn cael eu canfod yn y Deyrnas Unedig, ac mae gennym ddwy les yn eu lle ar gyfer mwyngloddio aur yng Nghymru.



## Gweithgaredd eleni

### Cefnogi ynni adnewyddadwy ar y môr

Fel rheolwyr gwely'r môr o amgylch Cymru, yn ogystal â Lloegr a Gogledd Iwerddon, gweithiwn wrth ochr llywodraeth, diwydiant ac ystod eang o bartneriaid i chwarae rôl weithgar wrth ddatgloi potensial ynni ar y môr.

Mae'r Deyrnas Unedig yn parhau i arwain y byd mewn gwynt ar y môr, gyda'r sector yn diwallu tua 5% o alw ynni y Deyrnas Unedig ac ar y trywydd iawn i ddiwallu 10% erbyn 2020. Mae prosiectau fel Gwynt y Môr 576MW, ger arfordir gogledd Cymru, ymysg ffermydd gwynt gweithredol mwyaf y byd.

Mae gan Gymru hefyd botensial sylweddol am ynni tonnau a llanw, er bod y technolegau hyn yn dal yn eu dyddiau cynnar iawn. Rydym wedi parhau i fod â rhan wrth gefnogi'r sector drwy ddyfarnu hawliau gwely'r môr yn ogystal â chydweithio gyda diwydiant i drin heriau cyffredin a rhannu arfer gorau.

Mae dau safle profi ac arddangos ar gyfer ynni tonnau a cherynt llanw yng Nghymru. Maent wedi eu lleoli yn Ynys Môn a De Penfro, a chânt eu rheoli gan drydydd parti. Eleni, derbyniodd parth arddangos tonnau De Penfro £300,000 o gyllid Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â chyfleusterau profi ac arddangos sy'n galluogi datblygwyr technoleg i osod peiriannau unigol neu luosog mewn amrywiaeth o amodau safle, rydym yn cynnig cyfle ar gyfer mynediad i wely'r môr ar gyfer prosiectau hyd at 3 MW neu brosiectau cerrynt llanw hyd at 30 MW. Gellir gwneud ceisiadau ar unrhyw amser tan hysbysiad pellach. Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa hon i wneud yn siŵr ein bod yn ateb gofynion ein cwsmeriaid, y farchnad a llywodraeth.

Er bod amodau heriol y farchnad ynghyd â thechnoleg gychwynnol, wedi gweld prosiect cerrynt llanw DeltaStream yn Swnt Dewi yn dod i ben, mae dau brosiect arall dan 3MW yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys prosiect cerrynt llanw Minesto yn Nwfn Caergybi a Nova Innovation yn Ynys Enlli.



### Rhannu gwybodaeth

Fel rhan o'n dull cadarnhaol o reoli asedau yn hirdymor, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gweithgareddau ac adroddiadau sy'n dod â rhanddeiliaid allweddol o fyd diwydiant ynghyd a'u galluogi i rannu gwybodaeth ac arferion gorau.

Er enghraifft, rydym yn parhau i gynyddu'r cyfoeth enfawr o ddata sydd ar gael yn gyhoeddus drwy ein Cyfnwiffa Data Morol. Mae hyn yn cynnwys deunydd amgylcheddol, fel arolygon adar a mamaliaid; gwerthusiadau o weithgareddau dynol, fel mordwyo, llongau a data archeolegol; a manylion amgylcheddol ffisegol, fel data geodechnegol a geoffisegol a samlo gwaddol. Trwy sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn rhwydd, rydym yn helpu i ysgogi ymchwil, cefnogi'r byd academiaidd a chyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy gwely'r môr o gwmpas arfordir Cymru.

Eleni hefyd, gwelwyd y Rhaglen Cyddiwydiant Adnewyddadwy Ar y Môr (ORJIP) ar gyfer Ynni Môr yn esblygu'n llwyddiannus o'i gyfnod treialu, gyda chefnogaeth nifer o bartneriaid yn cynnwys Ystâd y Goron, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r rhaglen hon yn dod â diwydiant ynghyd i ddatblygu safbwyntiau cyffredin ar faterion caniatâd, megis Asesiadau o Effaith ar yr Amgylchedd ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.

Yn olaf, eleni cyhoeddwyd Adolygiad Hendry a gomisiynwyd gan y llywodraeth ar forlynoedd llanw gydag argymhellion cadarnhaol am y potensial ar gyfer y sector. Bu modd i ni helpu'r Adolygiad drwy rannu tystiolaeth, data ac arbenigedd o'n rheolaeth o wely'r môr.

### Agregau morol

Ni sy'n gyfrifol am drwyddedu codi agregau lle'r ydym yn rheoli gwely'r môr. Gostyngodd cyfanswm tunelli yr agregau morol a gyflenwyd i borthladdoedd Cymru gan 1% yn 2016 i 683kt, gyda 337kt ohono yn cael ei dynnu o ddyfroedd Cymru.


Yn ogystal â darparu'r deunyddiau crai ar gyfer y diwydiant adeiladu, caiff agregau morol eu defnyddio i ail-lenwi traethau a gwella'r amddiffyniad arfordirol yng Nghymru. Yn dilyn ail-lenwi traeth Bae Colwyn yn llwyddiannus yn 2013 a 2014, rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid sydd â diddordeb i ymchwilio cyfleoedd am brosiectau arloesol.

Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn y broses o adolygu polisi ar dynnu agregau morol yn nyfroedd Cymru.

Rydym hefyd wedi bod yn ymwneud â datblygu cynllun newydd a elwir yn Rhaglen Ranbarthol Monitro Gwely'r Môr. Bydd y dull rhanbarthol ar draws y sector o samlo a dadansoddi gwely'r môr yn arwain at reolaeth fwy effeithlon, datrysiadau monitro effeithiol ac yn y pen draw wella cynaliadwyedd amgylcheddol. Mae Ystâd y Goron a hefyd Lywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid i ddatblygu'r rhaglen.

## Uchafbwyntiau ariannol

### Refeniw yn ôl gweithgaredd 2017 £m



### Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd 2017 £m



### Ystâd y Goron Cymru

	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2017 £m	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2016 £m	Cyfanswm Ystâd y Goron Cymru Gweithrediadau Parhaus Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2017 £m	Cyfanswm Ystâd y Goron Cymru Gweithrediadau Parhaus Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2016 £m	Cynnydd/ (gostyngiad) o'r flwyddyn flaenorol %	Canran o'r cyfanswm %
<b>Refeniw</b>	<b>7.3</b>	10.5	<b>401.6</b>	381.1	<b>(30.5)</b>	<b>1.8</b>
Gwarged gros	7.1	10.3	351.0	329.6	(31.1)	2.0
<b>Gwerth eiddo</b>	<b>88.6</b>	91.6	<b>11,267.8</b>	10,801.2	<b>(3.3)</b>	<b>0.8</b>
Buddsoddiadau cyfalaf	0.5	1.3	563.0	230.6		
Derbyniadau cyfalaf	0.2	83.5	524.7	628.1		
<b>Refeniw yn ôl gweithgaredd</b>	<b>Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2017 £m</b>	<b>Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2016 £m</b>	<b>Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd</b>	<b>Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2017 £m</b>	<b>Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2016 £m</b>	
Arfordirol	1.7	2.0	Arfordirol	18.5	18.1	
Ceblau/pibelli	0.1	0.1	Ceblau/pibelli	1.9	1.9	
Amaethyddiaeth	0.1	0.1	Amaethyddiaeth	4.1	4.4	
Coedwigaeth	-	-	Coedwigaeth	0.1	0.1	
Mwynau	0.8	0.6	Mwynau	5.5	5.4	
Treillio	-	-	Treillio	-	-	
<b>Cyfanswm Gwledig ac Arfordirol</b>	<b>2.7</b>	2.8	<b>Cyfanswm Gwledig ac Arfordirol</b>	<b>30.1</b>	29.9	
Ceblau/pibelli	0.9	0.9	Ceblau/pibelli	10.5	9.7	
Treillio	0.5	0.5	Treillio	5.2	5.4	
Adnewyddadwy	3.2	2.6	Adnewyddadwy	42.8	46.6	
<b>Cyfanswm Ynni, Mwynau a Seilwaith</b>	<b>4.6</b>	4.0	<b>Cyfanswm Ynni, Mwynau a Seilwaith</b>	<b>58.5</b>	61.7	
<b>Manwerthu Rhanbarthol*</b>	<b>-</b>	3.7	<b>Manwerthu Rhanbarthol*</b>	<b>-</b>	-	
<b>Cyfanswm</b>	<b>7.3</b>	10.5	<b>Cyfanswm</b>	<b>88.6</b>	91.6	

\* Mae hyn yn adlewyrchu gwerthu Parc Siopa Morfa, Abertawe, fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd. Ar ôl cyflawni ein cynlluniau rheoli asedau yn llwyddiannus, cafodd ei werthu yn gynnar yn 2016 i Ashby Capital, yn unol â'n strategaeth ar gyfer y portffolio manwerthu rhanbarthol.

### Gwybodaeth

**Ar-lein**  
www.thecrownestate.co.uk

**Cyhoeddiadau**  
Adroddiad Blynyddol  
2015/16

Uchafbwyntiau Cymru  
2016/17

**Llundain**  
The Crown Estate  
1 St James's Market,  
Llundain, SW1Y 4AH  
Ff 020 7851 5000

**Cyfrngau cymdeithasol a diweddariadau**  
Dilynwch ni ar Twitter:  
@TheCrownEstate